Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y CABINET**
A gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa **Dydd Mawrth, 18 Mai 2021**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm ddydd Dydd Iau, 20 Mai 2021. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unryyw benderfyniad i mewn yw 5.00 pm ddydd Dydd Iau, 27 Mai 2021 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau I rym (os na fydd yna gais idlys i'wgalw i mewn) ddydd Dydd Gwener, 28 Mai 2021

**YN BRESENNOL;** Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Cynghorydd Dafydd Edwards, Cynghorydd Catherine Hughes, Cynghorydd Gareth Lloyd, Cynghorydd Catrin Miles, Cynghorydd Ray Quant MBE a/ac Cynghorydd Alun Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Ceredig Davies, Lynford Thomas a Ivor Williams.

(10.00 - 11.30 am)

**1 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am beidio â bod yn bresennol yn y cyfarfod oddi wrth y Cynghorydd Rhodri Evans ac Eifion Evans, Prif Weithredwr.

**2 Materion Personol**

i. Mynegwyd cydymdeimlad â Wyn a Mary John a'u teulu yn dilyn marwolaeth drasig eu mab.

ii. Mynegwyd cydymdeimlad â Bronwen Morgan (cyn Brif Weithredwr) a'i theulu yn dilyn marwolaeth ddiweddar ei mam.

iii. Llongyfarchwyd y Gwasanaeth Tai ar ennill Gwobr Caffael Aur am eu cynllun 'Cartrefi Cynnes'.

iv. Dathlodd Gynllun Cymraeg Gwaith Cyngor Sir Ceredigion lwyddiannau yng ngwobrau Cymraeg Gwaith Cymru. Enillodd Mariolina Lai, sy'n Gynorthwyydd Gofal Dydd ym Min-y-Môr, y wobr am y 'Dysgwr sydd wedi gwneud y cynnydd gorau ar lefelau Sylfaen+'. Daeth Alison Newby, sy'n Diwtor Rhifyddeg, Llythrennedd a Threfniadaeth Busnes, yn ail am y wobr 'Dysgwr lefel Sylfaen+ sy'n gwneud y Defnydd Gorau o'r Gymraeg at bwrpas Gwaith'. Daeth Dewi Huw Owen, Swyddog Hyfforddi Cymraeg Gwaith y Cyngor, yn ail am y wobr 'Tiwtor Cymraeg Gwaith y Flwyddyn'. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r tri.

v. Dywedodd y Cynghorydd Lynford Thomas ei fod, yng nghyfarfod arbennig y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2021, wedi cyfeirio'n anfwriadol at wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys mewn adroddiad eithriedig nad oedd ar gael i'r cyhoedd. Ymddiheurodd yn ddiffuant am y diofalwch a oedd wedi mynd yn groes i God Ymddygiad yr Aelodau.

**3 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Datgelwyd buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu yn eitem 13 isod gan y Cynghorwyr Catherine Hughes a Ceredig Davies a gadawsant y cyfarfod pan drafodwyd y mater hwnnw.

4 **Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr parthed COVID-19**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor, Ellen ap Gwynn, ddiweddariad ar lafar mewn perthynas â COVID-19. Dywedodd fod y ffigurau'n parhau i fod yn isel yn y sir ond mae angen i bawb barhau i fod yn wyliadwrus. Mae'r rhaglen frechu yn parhau'n effeithiol ledled y sir ac mae'n debygol y bydd y brechiadau cyntaf yn cael eu cwblhau yn gynt na'r disgwyl. Disgwylir i'r ail frechiadau gael eu cwblhau erbyn mis Medi.

Gall lleoliadau lletygarwch nawr agor yn llawn a gall hyd at chwech o bobl o wahanol aelwydydd rannu bwrdd y tu mewn. Gall hyd at 30 o bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau dan do wedi'u trefnu a gall hyd at 50 o bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu.

Mae profion yn parhau ar gyfer staff ysgolion a disgyblion ysgolion uwchradd drwy Brofion Llif Unffordd ddwywaith yr wythnos. Mae Profion Llif Unffordd bellach ar gael i ofalwyr di-dâl hefyd. Mae ysgolion wedi agor yn llawn ac mae disgyblion blynyddoedd 11, 12 a 13 yn cwblhau eu hasesiadau ar hyn o bryd.

Bydd caeau chwarae ysgolion yn ailagor ac ar gael i'r gymuned eu defnyddio ar ôl gwyliau'r hanner tymor a bydd Canolfannau Hamdden Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan ynghyd â phwll nofio Llanbedr Pont Steffan yn agor ar 7 Mehefin 2021. Mae angen gwaith adfer sylweddol ym Mhlascrug a gwnaed trefniadau amgen ar gyfer defnyddio Neuadd Chwaraeon Penglais.

Disgwylir i wersi cerddoriaeth wyneb yn wyneb mewn ysgolion ailgychwyn ddiwedd mis Mehefin.

Mae'r parthau diogel wedi'u haddasu a byddant yn cael eu defnyddio dros wyliau'r hanner tymor ac yn ystod 6 wythnos o wyliau haf yr ysgolion.

Mae ymweliadau dan do mewn Cartrefi Gofal bellach ar gael drwy drefnu ymlaen llaw, a bydd ymweliadau dan do ar gael lle bo angen. Mae ymweliadau yn y podiau a ddarperir yn y Cartrefi Gofal yn parhau a byddant ar gael ar gyfer ymweliadau hirach yn fuan.

5 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny.**
**PENDERFYNIAD**

Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Mawrth, 2021 yn rhai cywir.

**Materion yn codi:**

Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

6 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny.**
**PENDERFYNIAD**

Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Mawrth, 2021 yn rhai cywir.

**Materion yn codi:**
Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

**7 Unrhyw ddeisebau a dderbynwyd: Deiseb ynghylch diogelwch ar ffordd y B4340**
Nodwyd bod y deisebau uchod wedi dod i law ac yr ymdrinnid â hwy yn unol â chanllawiau'r Protocol Deisebau

**8 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.**
Dim.

**9 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda.**
Gweler penderfyniad 14.

**10 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion a Diwylliant ynghylch: Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol**
**PENDERFYNIAD**

i. Cymeradwyo'r cynnig i ddileu'r ddarpariaeth sedd wag ac i gydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000
ii. Cymeradwyo'r broses apeliadau ddiwygiedig i adlewyrchu gofynion Cyfansoddiad yr Awdurdod Lleol
iii. Cymeradwyo'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol diwygiedig fel y'i cyflwynwyd.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*1. Cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000*
*2. Cydymffurfio â Rhan 7 Cyfansoddiad yr Awdurdod Lleol o ran aelodaeth o'r Panel Apeliadau Cludiant Addysg*

**11 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion a Diwylliant ynghylch: Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol**
**PENDERFYNIAD**
Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol yr ysgolion perthnasol.

***Rheswm dros y penderfyniad:***
*Er mwyn enwebu cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol.*

**12 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Ysgolion a Diwylliant ynghylch: Polisi Gwrth-fwlio Ysgolion Ceredigion.**
**PENDERFYNIAD**
i. Cymeradwyo canllawiau ar gyfer Polisi Gwrth-fwlio Ceredigion Hawliau, Parch a Chydraddoldeb 2019; a

ii. Argymell bod Cyrff Llywodraethol Ysgolion Ceredigion yn mabwysiadu'r Polisi.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Diweddaru a rhannu gwybodaeth gyda'r Cabinet ar y Dogfennau Canllawiau diweddaraf ar Wrth-fwlio yn Ysgolion Ceredigion.*

**13 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Cyllid a Chaffael ynghylch: Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021-22 Llywodraeth Cymru**
**PENDERFYNIAD**
Mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Annomestig - Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021-22 Llywodraeth Cymru fel Rhyddhad Ardrethi Annomestig Dewisol o dan Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Er mwyn cefnogi busnesau lleol gan ddefnyddio'r cyllid grant sydd ar gael.*

**14 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Pobl a Threfnidiaeth ynghylch: Polisi Adnoddau Dynol: Polisi'r Gofalwyr gan gynnwys adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol**
**PENDERFYNIAD**
i. Argymell cymeradwyo'r Polisi Gofalwyr gan gynnwys yr ychwanegiadau canlynol fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol:
a. Cynnwys rhif ffôn yr Uned Gofalwyr ym Mharagraff 11.2
b. Cynnwys manylion cyswllt yr Uned Gofalwyr yn Adran 6
c. Cynnwys rhifau ffôn Galw Iechyd Cymru yn Adran 6
d. Ychwanegu'r paragraff canlynol at Adran 9.1:
'Yn ystod argyfyngau, megis pandemig Covid-19, roedd gorfod gweithio gartref yn rhoi cyfle i rai gofalwyr gydbwyso eu gwaith a'u cyfrifoldebau gofalu. Roedd y profiad yn caniatáu gwell dealltwriaeth o'r hyblygrwydd sydd ar gael mewn unrhyw rôl benodol i'r gweithiwr a'r rheolwr llinell.'
ii. Nodi'r adborth oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Er mwyn cydnabod a chefnogi gweithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu sylweddol ochr yn ochr â'u cyflogaeth â thâl.*

**15 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch: Mabwysiadu Coed y Bryn, Aberaeron**
**PENDERFYNIAD**
i. Awdurdodi codi Hysbysiad Adran 228, ac
ii. Os na ddaw gwrthwynebiadau, yn bwrw ymlaen â'r broses fabwysiadu.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*I sicrhau y cynhelir llesiant y trigolion drwy gydol y gwaith parhaus o arolygu a chynnal heol yr ystâd.*

**16 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch: Cludo, didoli ac ailgylchu Deunydd Eildro Sych Cymysg**
**PENDERFYNIAD**

i. Cytuno i ddyfarnu'r contract i'r Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd, yn amodol ar gyfnod segur statudol o 10 niwrnod.

***Rheswm dros y penderfyniad:-***
*Galluogi cludo, didoli ac ailgylchu deunydd eildro sych cymysg a gesglir o ddrws i ddrws.*

**17 Ystyried adroddiad er gwybodaeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Porth Cynnal ynghylch: Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd-CYSUR/CWMPAS, Chwarter 3 2020-21**
**PENDERFYNIAD**

i. Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

**18 Ystyried adroddiad er gwybodaeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Porth Cynnal ynghylch: Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 3, 2020/21**
**PENDERFYNIAD**

i. Nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

**19 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch: Caffael Contract Cludo, didoli ac ailgylchu Deunydd Eildro Sych Cymysg**
**PENDERFYNIAD**

i. Peidio â gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod oherwydd ni thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.
ii. Nodi'r wybodaeth o fewn yr adroddiad.

**20 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

Dim.

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**